CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD 30ain MEHEFIN 2020
A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL PONT YR ARW LLANFACHRAETH.

PRESENNOL.
Nid oedd cyfarfod oherwydd coronafeirws.(Cysylltu dros ffon neu ebost)

YMDDIHEURIADAU.

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I'W ARWYDDO.

COFNODION 26ain MAI 2020 YN GYWIR. I'w sganio'n gyflym pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

CODI O'R COFNODION.
Cae Chwarae. Yn cael ei dorri yn rheolaidd. Disgwyl cael cychwyn ar y ffensio. Cyng I G Evans yn gofyn pwy oedd yn talu am y ffensio. Y Cyngor yn talu pan mae'r gwaith wedi ei gwblhau a cael yr arian yn ol gan y Cyngor Sir pan byd pethau yn gwella gyda'r feirws i gael cyfarfod (Cyng B Rowlands)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.

1. FPL/2020/77. Cais llawn ar gyfer newid defnydd sied gardd bresennol i ddefnydd busnes llosgydd i amlosgi anifeiliad addwas domestig ynghyd a addasu yr adeilad yn:-
   Frondeg Lodge, Llanfachraeth.
   Gwrthwynebu o'r blaen a nawr. Gweler ymateb i'r Adran Cynllunio y Cyngor Sir.
   Cyng I G Evans yn ymatal.

2. VAR/2020/50. Cais cynllunio Hybrid yn cynnwys cais llawn ar gyfer dymchwel y garej / storfa bresennol ynghyd a chodi garej / storfa newydd ar gyfer Gwenfa a chanitad cynllunio amlinellol ar gyfer codi annedd ynghyd a manylion llawn mynedfa gerbydau yn:-
   Gwenfa, Llanfachraeth.
   Dim ond un peth am y cais yma.
   Dim yn glir lle ydi lleoliad yr annedd yma maen't angen caniatad amlinellol.
   Dim i weld ar y Cynlluniau ac mae nhw reit ar ffin datblygu.

PENDERFYNIADAU.

3. Dim.

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON.

4. Swyddog Polisi.
   Bydd Cyngor Sir Mon yn ailagor Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Penhesgyn yn unig 2ail Mehefin *2020. Derbyn.*

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Un Llais Cymru.
   Cyfarfod Ardal Ynys Mon wedi ei ganslo 25ain Mehefin 2020. Derbyn.

6. Er Gwybodaeth.
   Arolwg Etholiadol Ynys Mon Cynigion Drafft.
   Wedi cwblhau rhan gyntaf eu harolwg o Ynys Mon. Gellir gweld yr Adroddiad ar wefan y comisiwn ar cffdl.llyw.cymru Hysbysiad o'r cofnod ar gyfer gwneud cynrychiolaethau yn dechrau 23ain Mehefin 2020 dod i ben 14ain medi 2020.
   Copi Caled gan y Clerc os oes rhywun eisiau golwg. Derbyn.

7. Liz Mangan. Gwesty'r Holland, Llanfachraeth.
   Yn ceisio cael grant gan Menter Mon. Oherwydd nad oes ganddynt rhif Banc nac enw. Yn gofyn a allai y Cyngor wneud y cais iddynt, er mwyn cael helpu y Gymuned fwy.
   Y Clerc yn ymateb na allai y Cyngor Cymdeithas hawlio grantiau. Y cam ymlaen buasai ffurfio Mudiad gyda Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd a cael pwyllgor.

RHODDION.

8. Dim.

PLWYFOL.

9. Cafwyd awgrymiad gan Clerc i gadw yr un Swyddogion am dymor arall. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad. Cadeiryddes Cyng Mrs E J Bryant. Is-Gadeirydd Cyng B Rowlands.

MATERION ARIANNOL.

10. RHEDEGOL. £2,190.10

11. CYNILO. £3,227.70.

12. I'W TALU.
    Clerc £120.00. Gweinyddu (3mis) £129.17. Treth Incwm 1. £90.00. G Roberts (Torri Cae Chwarae 25/5, 8/6, 22/6) £300.00.

Er nad oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan reol i dalu ein dyledion. (Disgresiwn Cadeirydd, Clerc)

20/7/20